



Swyddfa Cymru

Swydd Ddisgrifiad ar gyfer Swyddog Ymweliadau a Digwyddiadau Gweinidogol

Teitl y Swydd	Swyddog Ymweliadau a Digwyddiadau Gweinidogol
Gradd Cyflog	HEO
Cyflog	£34,140 - £37,105
Lleoliad	Tŷ William Morgan, Caerdydd, CF10 1EP
Contract	Llawm amser - Parhaol
Cliriad	CTC (Gweler rhagor o fanylion)

Ynglŷn â Swyddfa Cymru

Swyddfa Cymru yw wyneb Llywodraeth y DU yng Nghymru a llais Cymru yn San Steffan. Rydym yn cefnogi Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r tîm Gweinidogol i gynrychioli Cymru wrth galon y Llywodraeth. Gyda swyddfeydd yn Llundain a Chaerdydd, rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag Adrannau eraill y Llywodraeth a rhanddeiliaid i gyflawni Cymru gryfach o fewn Teyrnas Unedig gref a ffyniannus.

Ein gwerthoedd adrannol yw Ymrwymiad, Cydweithredu ac Ansawdd. Mae'r rhain yn siapio sut rydym yn gweithredu mewn amgylchedd heriol a chyflym sy'n gofyn am hyblygrwydd, tryloywder a phroffesiynoldeb.

Y Rôl

Mae'r swyddog Ymweliadau a Digwyddiadau Gweinidogol yn cefnogi'r Rheolwr Materion Allanol i gyflawni ymweliadau a digwyddiadau gweinidogol.

Mae hon yn rôl heriol a gwerth chweil i unigolyn galluog a chymhellol sy'n rhagori mewn cynllunio a rheoli prosiectau i gyflwyno digwyddiadau ac ymweliadau proffil uchel yng Nghymru – ac weithiau'n rhyngwladol – i Weinidogion y Llywodraeth. Gan weithio yn y Swyddfa Breifat wrth galon yr Adran, byddwch yn cael mynediad digynsail at Weinidogion ac yn gweithio'n agos gyda thimau Cyfathrebu a Pholisi i sicrhau bod digwyddiadau ac ymweliadau o ansawdd uchel ac yn canolbwyntio'n strategol ar flaenoriaethau'r Llywodraeth. Mae'n amgylchedd cyflym a deinamig felly mae sgiliau cynllunio a threfnu cryf gyda pharodrwydd i weithio'n hyblyg i gyd yn hanfodol, ochr yn ochr â'r gallu i feddwl yn greadigol a gweithio fel rhan o dîm cefnogol. Bydd gofyn i chi chwilio am leoliadau ymweliadau Gweinidogol posibl yn rheolaidd yn ogystal â chyfeilio Gweinidogion ar ymweliadau a allai gynnwys gweithio oriau ansafonol a all gynnwys penwythnosau o bryd i'w gilydd, neu ofyniad i weithio i fwrdd dros nos.

Prif Gyfrifoldebau

- Cynllunio, cydlynu ac arwain digwyddiadau ac ymweliadau o ansawdd uchel ar gyfer Gweinidogion, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol, i gyflawni amcanion polisi ac amcanion cyfathrebu.
- Adnabod a chwilio am leoliadau cyn ymweliadau Gweinidogol a chomisiynu timau polisi a chyfathrebu i ddatblygu cyngor cywir a chynlluniau cyfathrebu.



Wales Office Swyddfa Cymru

- Dyfeisio briffiau manwl ar gyfer Gweinidogion, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol a rhoi sylw manwl i gywirdeb a chyflwyniad.
- Mynd gyda Gweinidogion ar ymweliadau ac i ddigwyddiadau yn y DU (Cymru yn bennaf) ac o bryd i'w gilydd dramor, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u briffio'n dda, a goruchwyllo logisteg i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n esmwyth, a bod risgiau yn cael eu lliniaru.
- Gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru a'r DU i nodi cyfleoedd ar gyfer ymweliadau Gweinidogol ar y cyd.
- Rheoli rhanddeiliaid allweddol o amrywiaeth o sectorau ar draws diwydiant a chymdeithas sifil i helpu i gefnogi ac meithrin cyfleoedd ymweld yn y dyfodol.
- Cefnogaeth gyda meithrin blaengynlluniau strategol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r llywodraeth, cyhoeddiadau rhanddeiliaid allanol a digwyddiadau allweddol, gan sicrhau eu bod yn cael adnoddau priodol.
- Gwerthuso llwyddiant digwyddiadau ac ymweliadau a defnyddio gwybodaeth rheoli i gyd-fynd ag adrodd corfforaethol a llywio cynllunio yn y dyfodol.
- Cadw cofnod o ddigwyddiadau ac ymweliadau blaenorol a rhai sydd ar ddod, gan sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n gyfredol ac yn gywir
- Cyfrannu at waith y Swyddfa Breifat ehangach, gan ddarparu cefnogaeth i Weinidogion gyflawni eu dyletswyddau.

Nid yw'r rhestr hon wedi'i fwriadu i fod yn gynhwysfawr, ac mae'n debygol y gall dyletswyddau gael eu newid o bryd i'w gilydd yng ngoleuni amgylchiadau sy'n newid ac ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Manyleb yr Unigolyn

Tystiwch pa mor agos rydych chi'n cyd-fynd â'r meini prawf hanfodol yn eich **Datganiad o Addasrwydd:**

Hanfodol

- Profiad amlwg o drefnu digwyddiadau ac ymweliadau ar gyfer uwch rhanddeiliaid neu swyddogion.
- Y gallu i weithio ar y cyd ar draws timau lluosog ac i sefydlu perthnasoedd effeithiol gydag amrywiaeth o rhanddeiliaid.
- Sgiliau rheoli amser a sefydliadol cryf i gyflawni gwaith yn annibynnol i ddyddiadau cau tynn, tra'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rhanddeiliaid ar gynnydd.
- Dull hyblyg gyda'r gallu i ddatrys problemau, nodi a lliniaru risgiau, a gweithio ar y cyd i oresgyn heriau.
- Dealltwriaeth neu brofiad o gyfathrebiadau llywodraethol, sector cyhoeddus, neu gorfforaethol.
- Bydd angen teithio i ddod o hyd i leoliadau ymweliadau Gweinidogol posibl, darparu cymorth ar ymweliadau Gweinidogol neu wrth fynychu cyfarfodydd rhanddeiliaid.

Dymunol

- Sgiliau Cymraeg
- Gwybodaeth ddaearyddol gref o Gymru.
- Trwydded yrru lawn lân y DU.



Wales Office Swyddfa Cymru

Y Broses Recriwtio

Bydd yr ymgyrch hon yn cael ei chynnal gan ddefnyddio fframwaith Proffil Llwyddiant y Gwasanaeth Sifil. Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i gwmpasu'r ymddygiadau canlynol:

- Rheoli Gwasanaeth o Ansawdd (**Ymddygiad Arweiniol**) (**Cais a Chyfweliad**)
- Cyflawni ar Gyflymder (**Cais a Chyfweliad**)
- Cyfathrebu a Dylanwadu (**Cyfweliad yn unig**)
- Gweithio gyda'n Gilydd (**Cyfweliad yn unig**)

Os bydd nifer uchel o ymgeiswyr, byddwn yn sifftio'r ymddygiad arweiniol yn unig i greu rhestr fer ar gyfer cyfweliad.

Gellir asesu cryfderau hefyd yn y cyfweliad, ond ni fydd y rhain yn cael eu rhannu ymlaen llaw.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr hefyd ddarparu Datganiad o Addasrwydd (fel y nodwyd uchod) sy'n manylu ar sut maent yn cyd-fynd â'r meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl.

Gwybodaeth Ychwanegol

Nid yw Swyddfa Cymru yn gyflogwr ynddo'i hun. Bydd y staff sy'n cael eu recriwtio i weithio yn Swyddfa Cymru yn weithwyr o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n darparu gwasanaethau cyflogaeth ar ein rhan.

Mae'r rôl hon yn gofyn am gliriad lefel CTC. Rhaid i ymgeiswyr am Gliriad Diogelwch Gwladol (CTC) fod yn byw yn y DU am 3 blynedd yn union cyn eu cais am Gliriad Diogelwch. Os ydych wedi treulio amser sylweddol dramor (cyfanswm o 6 mis yn ystod y 3 blynedd diwethaf) byddai'n ofynnol i chi roi crynodeb rhesymol o'r rhesymau pam.

Os nad ydych yn bodloni'r gofynion uchod, efallai y byddwch yn dal i gael eich ystyried ar gyfer y rôl os, er enghraifft:

- Rydych wedi bod yn gwasanaethu dramor gyda Lluoedd Arfog EF neu mewn rhyw swyddogaeth swyddogol arall fel cynrychiolydd o Lywodraeth EF
- Roeddech yn astudio dramor
- Roeddech yn byw dramor gyda rhieni